OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1717 (Cy.132)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU
CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*28 Mehefin 2005*
Yn dod i rym	- -	*29 Mehefin 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1, 3, 5, 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 29 Mehefin 2005.

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae gan "Cymru" yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**), ac mae "dyfroedd Cymru" yn golygu yr ardaloedd morwrol sydd o fewn Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "bar tynnu" ("*tow bar*") yw unrhyw ddyfais neu offeryn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gosod neu ddodi llusgrwyd cregyn bylchog yn sownd i gwch er mwyn galluogi i'r fath lusgrwyd gael ei thynnu gan y cwch.

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 19(1) a Deddf Llongau Masnachol 1995 (p.21), Atodlen 13, paragraff 38(a) a Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820), Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (3). Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), Atodlen 2, paragraff 16(1), Deddf Pysgota Gyda'r Lan (yr Alban) 1984 (p.26), Atodlen 1 ac O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (4). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), Atodlen 1, paragraff 38(3) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(2)(b). *Gweler* adran 22(2)(a) i gael y diffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adran 3 a 15(3); diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adrannau 19(2)(d) a 45(b) a (c) a chan O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(12).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan adrannau 1, 3, 5, 15(3) a 20 o Ddeddf 1967 i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (sydd, yn ôl y diffiniad yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), yn cynnwys "y môr yn gyfagos â Chymru ac allan i'r môr hyd at ffin y môr tiriogaethol").

(**3**) 1998 p.38.

ystyr "cregyn bylchog" ("*scallop*") yw'r rhywogaeth Pecten maximus;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**4**) neu sydd dan berchenogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "gorchymyn cyfatebol" ("*equivalent order*") yw unrhyw orchymyn arall a wneir o dan adrannau 1, 3, 5 neu 15 o'r Ddeddf, ac sy'n creu gwaharddiadau tebyg i unrhyw rai o'r rheini sydd yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn ac sy'n rhychwantu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu sy'n gymwys i unrhyw ran;

ystyr "gwaelodlinau" ("*baselines*") yw'r ystyr a roddir i "baselines" yn Neddf Môr Tiriogaethol 1987(**5**);

ystyr "llusgrwyd cregyn bylchog" ("*scallop dredge*") yw unrhyw gyfarpar ac iddo ffrâm anhyblyg yn enau, a lusgir drwy'r dŵr ac a gaiff ei weithgynhyrchu, ei addasu, a'i ddefnyddio neu y bwriedir ei ddefnyddio at bwrpas pysgota am gregyn bylchog.

Cyfyngu ar y nifer o lusgrwydi cregyn bylchog

3.—(1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig, ar unrhyw adeg, dynnu mwy na 43 llusgrwyd cregyn bylchog ar y naill ochr a'r llall o'r cwch mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sy'n gorwedd o fewn 3 milltir fôr o'r lan, ac fe fesurir y pellter yma o'r gwaelodlinau.

(2) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig, ar unrhyw adeg, dynnu mwy nag 8 llusgrwyd cregyn bylchog y naill ochr a'r llall o'r cwch mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sy'n gorwedd mwy na 3 milltir fôr o'r lan, ac fe fesurir y pellter yma o'r gwaelodlinau.

Cyfyngiad ar faint barau tynnu

4.—(1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd yn gorwedd o fewn 3 milltir fôr o'r lan, (y pellter yma i gael ei fesur o'r gwaelodlinau), gario neu ddefnyddio bar tynnu oni bai fod y bar tynnu yn cydymffurfio ag anghenion paragraff (2);

(2) Yr anghenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw'r rhain;

(a) ni chaiff bar tynnu fod yn fwy na 3.8 metr o hyd, a

(b) ble mae bar tynnu yn 3.8 metr neu lai o hyd, ni ddylsai fod wedi ei wneuthur yn y fath fodd fel y gall gael ei osod i fwy na 4 llusgrwyd cregyn bylchog ar yr un pryd.

(3) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, yn unrhyw ddarn o ddyfroedd Cymru sydd yn gorwedd mwy na 3 milltir fôr o'r lan, (y pellter yma i gael ei fesur o'r gwaelodlinau), gario neu ddefnyddio bar tynnu onibai fod y bar tynnu hwnnw yn cydymffurfio ag anghenion pharagraff (4);

(4) Yr anghenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw'r rhain:

(a) ni chaiff bar tynnu fod yn fwy na 7.6 metr o ran hyd, a

(b) ble mae'r bar tynnu yn 7.6 metr neu lai o ran hyd, ni ddylsai fod wedi ei wneuthur yn y fath fodd fel y gall gael ei osod i fwy nag 8 llusgrwyd cregyn bylchog ar yr un pryd.

(**4**) 1995 p.21.
(**5**) 1987 p.49

Manyleb llusgrwydi cregyn bylchog

5.—(1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig gario na thynnu llusgrwyd cregyn bylchog o fewn dyfroedd Cymru onibai mewn perthynas â'r fath lusgrwydo —

(a) bod pob rhan o'i ffrâm yn llai na neu yn gyfartal â 85 centimetr o led;

(b) ei bod yn cynnwys bar danheddog sbringlwythog sy'n ateb y diben, yn weithredol ac yn symudol;

(c) nad yw'r llusgrwyd yn cynnwys unrhyw atodiadau ar ei chefn, ar ei thop neu y tu mewn iddi;

(ch) nad yw'r llusgrwyd yn cynnwys plât plymio neu unrhyw ddyfais debyg arall; a

(d) nad yw cyfanswm pwysau'r llusgrwyd yn cynnwys yr holl ffitiadau heb fod yn fwy na 150 cilogram.

(2) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig gario neu dynnu llusgrwyd cregyn bylchog o fewn dyfroedd Cymru —

(a) os yw'r llusgrwyd yn 80 centimetr o led neu fwy —

(i) onid yw'r nifer o resi o fodrwyau bol sy'n hongian o'r bar bol heb fod yn fwy nag 8 ar draws;

(ii) os yw'r dannedd i gyd yn mesur 12 milimetr neu lai, onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy na 9;

(iii) os oes unrhyw un o'r dannedd yn mesur mwy na 12 milimetr, onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy nag 8;

(b) os yw'r llusgrwyd yn llai nag 80 centimetr o led —

(i) onid yw'r nifer o resi o fodrwyau bol sy'n hongian o'r bar bol heb fod yn fwy na 6; a

(ii) onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy na 6;

(c) onid oes ganddo ddim mwy nag 1 rhes o fodrwyau bol yn hongian o'r naill ochr a'r llall o'r llusgrwyd yn unionsyth at y modrwyau sy'n hongian o'r bar bol; ac

(ch) onid yw pob dant ar y bar danheddog heb fod yn fwy na —

(i) 22 milimetr lle y mae'r llusgrwyd yn 80 centimetr o led neu fwy; neu

(ii) 12 milimetr lle y mae'r llusgrwyd yn llai na 80 centimetr o led.

(3) Yn yr erthygl hon —

(a) llinell o fodrwyau unigol sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd yw rhes o fodrwyau bol, lle y mae'r fodrwy ar un pen i'r llinell yn hongian naill ai o'r bar bol neu o brif strwythur y llusgrwyd yn unionsyth i'r bar bol;

(b) bar bol yw'r bar sydd wedi'i gysylltu â ffrâm y llusgrwyd sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r bar danheddog ac y mae'r modrwyau bol yn hongian wrtho;

(c) bar danheddog yw'r bar ac arno ddannedd sydd â'u pennau'n pwyntio i lawr ac y bwriedir iddynt gyffwrdd â gwely'r môr pan yw'r llusgrwyd yn weithredol;

(ch) maint dant yw mwyafswm ei led wedi'i fesur yng nghyfeiriad llinell y bar danheddog.

(4) Nid yw modrwyau bol a'r teclynnau sy'n eu cysylltu â'i gilydd ac â'r ffrâm i'w hystyried fel atodiadau at ddibenion paragraff (1)(c).

Cyfyngiadau pysgota

6.—(1) At ddibenion adran 1(3) o'r Ddeddf, isafswm maint cragen fylchog y gellir ei chario gan gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru yw 110mm.